# Y Tîm Nam ar y Clyw

**Beth y gallwch ei ddisgwyl o'r maes gwasanaeth hwn?**

- Cyngor, canllawiau a HMS gan Athrawon Cymwysedig Plant Byddar ar sail anghenion unigol.
- Hyfforddiant HMS i ysgolion, a gall Athrawon Cymwysedig Plant Byddar neu Uwch Swyddogion Cymorth ei gyflwyno.
- Pecynnau HMS wedi'u haddasu'n bwrpasol ar gyfer math penodol o nam ar y clyw.
- Cydweithio â'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY), athrawon dosbarth ac uwch dimau rheoli.
- Cynorthwyo ac uwchsgilio staff a meithrin gallu i sicrhau dysgu o safon ac i alluogi plant a phobl ifanc i fanteisio ar y cwricwlwm a'r dysgu.
- Cyngor i athrawon dosbarth ynghylch rheoli'r ystafell ddosbarth, dyfeisiau chwyddo sain personol, gwaith gwahaniaethol a dewis dulliau cyfathrebu.
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd adolygu.
- Gwasanaeth allgymorth a bennir drwy ddefnyddio'r fframwaith cymhwysedd NATSIP.
- Asesiad parhaus o'r clyw yn y Clinig Cymorth Clyw Plant.
- Adborth gan Athrawon Cymwysedig Plant Byddar am ddisgyblion sydd â chymorth clyw wedi i'r plentyn neu'r person ifanc gael ei weld yn y Clinig Asesu Clyw Plant.
- Cyngor ynghylch gweithgareddau addas seiliedig ar iaith a datblygu sgiliau cyfathrebu.
- Trefniadau arbennig – gallai hyn gynnwys cymorth yn y dosbarth, cyfarpar arbenigol, defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, trefniadau ar gyfer sefyll arholiadau.
- Cymorth pan fydd y disgybl yn symud ysgol gan weithio'n agos gyda'r ysgol newydd a threfnu ymweliadau ychwanegol.
- Gall yr awdurdod lleol ddarparu cyfarpar arbenigol – cymhorthion radio.
- Bydd staff arbenigol yn cynnig cymorth parhaus i ddisgyblion sydd wedi cael gwybod gan feddyg fod ganddynt nam ac y clyw, er enghraifft cymorth yn y dosbarth, sesiynau addysgu cyn ac ar ôl gwersi, gofalu bod cyfarpar arbenigol yn gweithio'n iawn a sicrhau bod y disgyblion yn gallu manteisio ar y cwricwlwm.

**Sut i fanteisio ar ein harbenigedd:**

- Bydd y tîm Nam ar y Clyw yn gwybod am y mwyafrif o'r plant a'r bobl ifanc gan y byddant wedi cael diagnosis gan weithwyr iechyd proffesiynol.
- Gallwch gysylltu â'n Hathrawon Cymwysedig Plant Byddar drwy'r e-bost neu dros y ffôn.
- Mae angen cydsyniad rhieni cyn cysylltu â'r Tîm.
- Mae'n bwysig bod Iechyd, y Pediatregydd Ymgynghorol, Tîm Mewnosod y Cochlea, yr Awdiolegydd, Therapydd Iaith a Lleferydd Arbenigol y teulu a'r ysgol yn cydweithio er mwyn cael y cyngor a'r cymorth gorau.
- Mae Athrawon Cymwysedig Plant Byddar ar gael i gwrdd â rhieni a'r ysgo.l
- Mae cyfarfodydd adolygu cynnydd yn gyfle i'r holl weithwyr proffesiynol a'r teuluoedd gynllunio gyda'i gilydd.
- Os yw disgybl wedi dechrau colli ei glyw yn hwyr, gall ysgolion gysylltu â'r Athrawon Cymwysedig Plant Byddar i ofyn am gyngor ac arweiniad.
- Mae gan y Tîm Nam ar y Clyw gysylltiadau â chyrff elusennol fel y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar – mae adnoddau ar gael am ddim.